




Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales



Ymgynghorwyr Anweithredol ar gyfer y Bwrdd Busnes Ymgynghorol

Cynnwys

Rhagair	3
Ynglŷn â'r rolau	4
Cyfrifoldebau Allweddol	5
Gofynion Ymgeiswyr	6
Cod Ymddygiad, Cyfrinachedd a Gwrthdaro buddiannau	7
Amserlen a Phroses Ymgeisio	8
Uchelgais Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf	10

Am wybodaeth pellach, plis cysylltwch â:



Alwen Williams

Prif Weithredwr

alwenwilliams@uchelgaigogledd.cymru

Rhagair: Amser cyffrous i ymuno

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn chwilio am ddau arweinydd profiadol o'r sector preifat i lunio dyfodol ein heconomi rhanbarthol drwy y Bwrdd Busnes Ymgynghorol newydd.

Mae hwn yn gyfle prin i chwarae rôl allweddol yn nhwff y rhanbarth – gan helpu i sefydlu'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol, recriwtio ei aelodau, a darparu'r arweinyddiaeth strategol a fydd yn llywio buddsoddiad trawsnewidiol a datblygu'r economi.

Rydym yn recriwtio dau Ymgynghorwyr Anweithredol i ddod â mewnwelediad, her a gweledigaeth i'n strwythurau llywodraethu ac arweinyddiaeth ar adeg dyngedfennol. Gydag Uchelgais Gogledd Cymru bellach yn gweithredu fel endid Llywodraeth Leol, mae gennym gyfrifoldebau statudol newydd, gan gynnwys cyflawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, Cynllun Datblygu Strategol, a hyrwyddo Lles Economaidd y rhanbarth.

Rydym yn chwilio am arweinwyr gyda'r profiad, rhwydweithiau eang a barn gadarn i lenwi ddwy rôl allweddol:

- Cadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol – Ymgynghorydd Anweithredol a fydd yn arwain y Bwrdd ac yn hyrwyddo ei waith.
- Is-Gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol – Ymgynghorydd Anweithredol a fydd yn cefnogi'r Cadeirydd a chynorthwyo i hyrwyddo dylanwad ac effaith y Bwrdd.

Mae'n gyfnod o gyfleoedd eithriadol. Mae gwaith o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cyflymu ac rydym yn agosáu at gyflwyno cynnig ar gyfer Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam – gyda'i gilydd yn cynrychioli £400 miliwn o fuddsoddiad gan y Llywodraeth, gyda'r uchelgais i drosoli hyd at £2 biliwn a chreu mwy na 10,000 o swyddi newydd dros y 15 mlynedd nesaf.

Mi fydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol wrth wraidd y momentwm hwn – gan ddarparu cyngor strategol annibynnol, herio rhagdybiaethau, a gweithredu fel eiriolwyr pwerus ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd eich arweinyddiaeth yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth o economi fywiog, gynaliadwy a gwydn sy'n cefnogi busnesau i dyfu, cymunedau llewyrchus, a chenedlaethau'r dyfodol i ffynnu.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ceisiadau ar gyfer y rolau cyffrous hyn.



Cyng. Mark Pritchard
Cadeirydd Cyd-bwyllgor
Corfforedig y Gogledd



Cyng. Charlie McCoubrey
Is-Gadeirydd Cyd-bwyllgor
Corfforedig y Gogledd



Alwen Williams
Prif Weithredwr
Uchelgais Gogledd Cymru

Disgrifiad o'r Rôl

Mi fydd yr Ymgynghorwyr Anweithredol yn cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu fel sefydliad a chyflawni ei amcanion yn llwyddiannus yn y meysydd gwaith allweddol canlynol:

Is-bwyllgor Lles Economaidd

- Gweithredu fel Ymgynghorwyr i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.
- Darparu mewnbwn ac arbenigedd strategol i raglen waith lles economaidd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, gan gynnwys datblygu strategaeth, rheoli risg a pherfformiad, cyflawni'r Cynllun Twf ac asesu achosion busnes.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

- Gweithio ar y cyd ag Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) y Cynllun Twf, y Cyfarwyddwr Portffolio a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i asesu risgiau, mynd i'r afael â materion a nodi cyfleoedd i gyflymu'r broses o gyflawni'r Cynllun Twf.
- Herio rhagdybiaethau a wnaed gan y Swyddfa Rheoli Portffolio tuag at risgiau prosiect, amserlenni ac effaith er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni.
- Cyfrannu at adnabod prosiectau buddsoddi posibl eraill yn y rhanbarth.

Bwrdd Busnes Ymgynghorol

- Gwasanaethu fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol.
- Cynrychioli barn y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

Ymgysylltu ac Eiriolaeth

- Ymgysylltu â noddwyr prosiectau, sefydliadau partner a Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i hwyluso'r gwaith o gyflawni prosiectau cyfredol ac adnabod cyfleoedd buddsoddi newydd.
- Hyrwyddo Uchelgais Gogledd Cymru a chyfleoedd rhanbarthol drwy rwydweithiau presennol ac adnabod cyfleoedd i wella ac ehangu rhwydweithiau.



Cyfrifoldebau Allweddol

Gofynnir i'r ddau Ymgynghorwyr Anweithredol penodedig ymgymryd â rôl Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol. Bydd gofyn i'r ddau hefyd gefnogi'r broses o recriwtio aelodau i'r bwrdd yma. Amlinellir cyfrifoldebau allweddol y ddwy rôl isod.

Cadeirydd Anweithredol

Cyfrifoldebau Allweddol:

- Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth: Arwain y Bwrdd Busnes Ymgynghorol, gan gynrychioli ei farn i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd a meithrin perthnasoedd cryf rhwng y sector preifat a chyrrff cyhoeddus.
- Cyngor Strategol: Darparu mewnbwn ar les economaidd, trafndiaeth ranbarthol, a chynllunio datblygu strategol.
- Goruchwylio Prosiect: Adolygu a herio cynigion buddsoddi, gan sicrhau aliniad â blaenoriaethau rhanbarthol.
- Buddsoddi a Thwf: Cynghori ar ddenu buddsoddiad o'r sector preifat a hyrwyddo twf graddadwy, cynhwysol.
- Eiriolaeth ac Ymgysylltu: Hyrwyddo gwaith Uchelgais Gogledd Cymru ar draws rhwydweithiau proffesiynol a llwyfannau cyhoeddus.

Is-Gadeirydd Anweithredol

Cyfrifoldebau Allweddol:

- Cymorth ac Arweinyddiaeth: Gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd i arwain y Bwrdd Busnes Ymgynghorol a chynrychioli ei farn i'r Is-bwyllgor Lles Economaidd.
- Cyngor Strategol: Darparu mewnbwn ar les economaidd, trafndiaeth ranbarthol, a chynllunio datblygu strategol.
- Adolygiad Prosiect: Cynorthwyo i werthuso cynigion buddsoddi ac adnabod prosiectau o flaenoriaeth.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid: Hyrwyddo mentrau rhanbarthol ac annog cyfranogiad y sector preifat.
- Gwybodaeth ac Eiriolaeth: Rhannu fewnwelediadau i'r farchnad ac eiriolaeth dros Ogledd Cymru ar draws rhwydweithiau.



Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf isod:

- Profiad amlwg a chyfredol o arweinyddiaeth busnes sylweddol, yn ddelfrydol yn ardal Gogledd Cymru, neu gyda gwybodaeth a dealltwriaeth amlwg o'r diwydiannau allweddol a'r cyfleoedd economaidd.
- Cysylltiadau da, sefydlog a gweithredol gyda busnesau eraill a/neu Lywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU, gyda'r gallu i ddylanwadu ac eirioli dros Uchelgais Gogledd Cymru ar y lefelau uchaf.
- Gyda statws ac enw da.
- Gweledigaeth strategol glir ynghyd â sgiliau cyfathrebu ac arweinyddiaeth ardderchog.

Yn ddelfrydol, bydd angen i'r unigolyn llwyddiannus gael:

- Awdurdod personol cryf, gravitas, a'r gallu i ysbrydoli hyder.
- Profiad wedi'i brofi o gyflawni'n llwyddiannus ac arbenigedd mewn trafodaethau masnachol.
- Profiad busnes cryf a'r gallu i lywio amgylcheddau busnes cymleth.
- Profiad sylweddol ar lefel uwch mewn busnes sector preifat.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth cyhoeddus/preifat a'r gallu wedi'i brofi o adeiladu partneriaethau sy'n dangos gwerth.
- Y gallu i feithrin cydweithio ar draws partneriaid a sectorau, rheoli perthnasoedd â rhan-ddeiliaid amrywiol yn rhagweithiol, er mwyn sicrhau dealltwriaeth ac ymrwymiad.
- Rhwydweithiau personol a phroffesiynol helaeth.
- Dealltwriaeth gryf o economi Gogledd Cymru.

Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus ymrwymo i Bolisiau Gwrthdaro Buddiannau a Chyfrinachedd

Ymrwymiad

- Cyfarfodydd bob deufis (bob yn ail mewn person a rhithiol).
- Cyfarfodydd rhithiol ychwanegol yn ôl yr angen.
- Ymgysylltu gweithredol â rhanddeiliaid a phartneriaid.



Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol gytuno i ddatganiad Cod Ymddygiad a Chyfrinachedd, sy'n nodi disgwyliadau'r Bwrdd fel cynrychiolwyr Uchelgais Gogledd Cymru, a sut i ddelio ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol a allai gael ei rannu â nhw yn ystod eu hamser ar y Bwrdd.

Gwrthdaro buddiannau

Mi fydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol yn rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer swyddogaeth lles economaidd Uchelgais Gogledd Cymru. Disgwylir y bydd yr holl aelodau gyda statws dda ac yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn cynnal enw da Uchelgais Gogledd Cymru, ei aelodau a'i bartneriaid ac nad ydynt yn dod â nhw i anfri.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r Bwrdd Busnes Ymgynghorol gytuno i ddatganiad Polisi Gwrthdaro Buddiannau a datganiad Chyfrinachedd, sy'n gosod allan disgwyliadau i'r Bwrdd fel cynrychiolwyr Uchelgais Gogledd Cymru a sut i ddelio ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol a allai gael ei rhannu â nhw yn ystod eu hamser ar y Bwrdd.

Cyllideb

Cytunir ar gyllideb gyfyngedig yn flynyddol rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, yn seiliedig ar gytundeb i gefnogi unrhyw ddigwyddiadau neu ddarnau o waith y gallai'r Bwrdd fod yn dymuno ei gomisiynu yn unol â'r cylch gorchwyl. Bydd angen cytuno ar unrhyw waith sydd i'w gomisiynu gyda'r Cyfarwyddwr Portffolio ymlaen llaw, ac i'w gaffael neu ei gomisiynu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ar ran y Bwrdd Busnes Ymgynghorol.



Amserlen

Er mwyn sicrhau tryloywder llawn a chyfle cyfartal, mi fydd y rolau yn cael ei hyrwyddo drwy hysbysiad dyfalu ar Sell2Wales, yn ogystal â thrwy gwefan Uchelgais Gogledd Cymru a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol swyddogol. Yn ogystal, mi fyddwn yn ymgysylltu ag asiantaethau recriwtio arbenigol ac yn annog ein partneriaid a'n rhwydweithiau ehangach i rannu'r cyfle yn eang er mwyn cyrraedd cronfa amrywiol o ymgeiswyr o ansawdd uchel.



Dyddiad cau

Rhaid derbyn ceisiadau erbyn

**17:00 dydd Gwener
22 Awst, 2025**



Rhestr Fer ac Asesiadau

Ein nod yw rhoi gwybod i bawb sydd ar y rhestr fer gyda manylion y cyfweiliad erbyn

**dydd Gwener
6 Medi, 2025**



Cyfweiliadau

Bydd union ddyddiad ac amser y cyfweiliad yn cael ei gadarnhau gyda'r rhestr fer

**wythnos yn cychwyn
15 Medi, 2025**



Hysbysiadau

**wythnos yn cychwyn
29 Medi, 2025**

Proses ymgeisio

Sut i wneud cais

Gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno'r canlynol:

- CV
- Llythyr eglurhaol yn amlinellu eu haddasrwydd ar gyfer y rôl
- Cerdyn prisiau (fesul awr a diwrnod)

Ceisiadau i'w cyflwyno drwy e-bost at swyddi@uchelgaigogledd.cymru

Meini Prawf Asesu

- Profiad sylweddol mewn arweinyddiaeth busnes neu ddatblygu rhanbarthol
- Meddylfryd cydweithredol a sgiliau cyfathrebu cryf
- Ymrwymiad i dwf economaidd cynhwysol, cynaliadwy
- Dealltwriaeth o'r dirwedd economaidd ranbarthol a blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru

Disgwyliadau o ran Ymrwymiad

Rhaid i ymgeiswyr ddangos eu gallu i ymrwymo i:

- gyfarfodydd pob deufis (bob yn ail mewn person a rhithiol)
- gyfarfodydd rhithiol ychwanegol yn ôl yr angen
- gyfranogiad gweithredol i ymgysylltu a hyrwyddo rhanbarthol

Mae disgwyliad y bydd yr Ymgynghorwyr Anweithredol penodedig yn gallu ymrwymo i gyfateb o 2-5 diwrnod y mis (i'w gytuno ar benodiad), gydag argaeledd ar gyfer dyddiadau'r Bwrdd a'r Is-bwyllgor.

Disgwylir i'r ymrwymiad amser gwmpasu'r gweithgareddau a nodir yn y disgrifiad o'r rôl.

Sgorio a Phroses Cyfweld

Bydd matrices sgorio safonedig yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb. Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweld gyda phanel sy'n cynnwys uwch swyddogion ac aelodau etholedig. Bydd crynodeb asesu yn cael eu cadw yn unol â Deddf Caffael 2023.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gytuno a llofnodi contract gwasanaeth - bydd copi drafft yn cael ei gyhoeddi ar Sell2Wales a gyda'r rhai sy'n gofyn am y pecyn.

Taliadau

Mae'r rhain yn swyddi ymgynghori gyda chyllideb o hyd at £30,000 y flwyddyn ar gyfer y contractau gwasanaethau. Mae cyllideb ychwanegol o £10,000 y flwyddyn yn cael ei neilltuo i'r elfen Cadeirydd, £5000 i'r Is-gadeirydd. Mae'r rhain yn cynnwys treuliau ac maent yn ddarostyngedig i ac ar sail y gyfradd diwrnod y gytunwyd a'r nifer o ddiwrnodau a gadarnhawyd y mis dros gyfnod cychwynol o ddwy flynedd.

Meini Prawf Sgorio

Mae dau gam i'r meini prawf sgorio. Asesiad cychwynnol i bennu ymgeiswyr ar y rhestr fer, yn seiliedig ar y llythyr eglurhaol a'r CV. Yna asesiad terfynol ar ôl y cyfweiliad. Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn cyrraedd y rhestr fer yn cael gwybod fel rhan o'r broses, ond ni ddarperir unrhyw adborth nes bod y broses wedi'i chwblhau.

Cam 1 - Rhestr Fer - Meini Prawf

	Pwysoliad	Asesiad
Profiad sylweddol mewn arweinyddiaeth busnes neu ddatblygu rhanbarthol - yn ddelfrydol yn Ngogledd Cymru neu Gymru	40%	Llythyr Eglurhaol a CV
Dealltwriaeth o dirwedd economaidd y rhanbarth a blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru	30%	Llythyr Eglurhaol a CV
Ymrwymiad i dwf economaidd cynhwysol a chynaliadwy	15%	Llythyr Eglurhaol a CV
Argaeledd ac ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd ac ymgysylltu'n rhanbarthol	15%	Llythyr Eglurhaol a CV
	100%	

CYFANSWM

Bydd ymgeiswyr sy'n sgorio 80% neu uwch yng Ngham 1 yn gymwys ar gyfer cyfweiliad (ar y rhestr fer) gydag uchafswm o 5 ymgeisydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Lle mae mwy na 5 ymgeisydd yn cwrdd â'r trothwy, bydd yr ymgeiswyr sydd yn sgorio uchaf yn cael eu gwahodd am gyfweiliad. Bydd y cyfweiliadau yn cael eu cynnal mewn person yn Adeilad y Llywodraeth, Sarn Mynarch, Cyffordd Llandudno - dyddiad i'w gadarnhau.

Cam 2 - Asesiad Terfynol - Meini Prawf

	Pwysoliad	Asesiad
Profiad mewn arweinyddiaeth busnes neu ddatblygu rhanbarthol, yn ddelfrydol yng nghyd-destun Gogledd Cymru neu Gymru	30%	Llythyr Eglurhaol, CV a chyfweiliad
Meddylfryd cydweithredol a sgiliau cyfathrebu cryf	20%	Cyfweiliad
Dealltwriaeth o dirwedd economaidd y rhanbarth a blaenoriaethau Uchelgais Gogledd Cymru	30%	Llythyr Eglurhaol, CV a chyfweiliad
Ymrwymiad i dwf economaidd cynhwysol, cynaliadwy	10%	Llythyr Eglurhaol, CV a chyfweiliad
Argaeledd ac ymrwymiad i fynychu cyfarfodydd ac ymgysylltu'n rhanbarthol	10%	Llythyr Eglurhaol, CV a chyfweiliad
	100%	

CYFANSWM

Rhaid cyflwyno pob CV, dogfennau ategol, a gohebiaeth sy'n ymwneud â'r cyfle hwn naill ai yn Gymraeg neu Saesneg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg a bydd pob cais yn cael ei drin yn gyfartal

Bydd y Tîm Gwerthuso yn sgorio pob rhan neu ymateb. Bydd yr holl gwestiynau yn cael eu gwerthuso yn unol â'r fethodoleg isod, a bydd y sgôr a roddir yn adlewyrchu'r lefel hyder a ennir gan yr ymateb(ion) sy'n cael eu hystyried. Mae'r dehongliadau generig o'r meini prawf ar gyfer y gwahanol lefelau hyder yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

0	Ni ddarparwyd tystiolaeth
1	Tystiolaeth gyfyngedig iawn; ddim yn bodloni'r disgwyliadau
2	Rhywfaint o dystiolaeth; yn rhannol yn bodloni'r disgwyliadau
3	Tystiolaeth ddigonol; yn bodloni'r disgwyliadau
4	Tystiolaeth gryf; uwch na'r disgwyliadau
5	Tystiolaeth ragorol; yn sylweddol uwch na'r disgwyliadau

Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn barod i ymgymryd â rôl Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Bwrdd Busnes Ymgynghorol. Bydd yr ymgeisydd sy'n ennill y sgôr uchaf yn cael ei benodi fel y Cadeirydd, gyda'r ail uchaf yn cael ei benodi fel yr Is-Gadeirydd.



Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Cynllun Twf Gogledd Cymru North Wales Growth Deal

Ein Gwerthoedd



Rydym yn Uchelgeisiol

Rydym yn ymdrechgu i gyflawni'r gorau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, ffurfwyr barn a dylanwadwyr, ac rydym yn herio meddwl confensiynol. Rydym yn dilyn safonau uchel, yn anelu at fod yn ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol yn barhaus.



Rydym yn gweithio ar y cyd

Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gydweithwyr. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith unigol.



Rydym yn gwneud y peth iawn

Rydym ni'n gwneud y peth iawn, nid yr hyn sy'n hawdd. Rydym yn herio ymddygiad anfoesegol ac yn siarad pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gallwn ymddiried ynddo i gyflawni ymrwymadau y cytunwyd arnynt ar amser.




Rydym yn gwneud gwahaniaeth

Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol. Rydym yn diogelu'r amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hól troed.

Ymddygiadau craidd i bob rôl

- Arweinyddiaeth - rydym oll yn arwain drwy esiampl ac rydym i gyd yn arweinwyr yn ein meysydd ein hunain.
- Cyfrifoldeb - rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gwaith, ein perfformiad a'n datblygiad.
- Parch - rydym yn parchu ein cydweithwyr, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid ac yn arddangos hyn drwy ein gwaith ac yn y ffordd yr ydym yn adeiladu perthnasau effeithiol.



Trosolwg o'r Cynllun Twf

- Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

funded by:



Buddsoddi



£240M

Targed Buddsoddi Cynllun Twf



Cyfanswm Targed Buddsoddiad Cynllun Twf **£1bn**

Amcanion Gwarant



Creu hyd at

4,200

o swyddi newydd



Cynhyrchu hyd at

£2.4bn

o GVA ychanegol net

Ein Rhaglenni



Arloesi mewn
Gweithgynhyrchu Uwch



Bwyd-amaeth a
Thwristiaeth



Cysylltedd
Ddigidol



Tir ac
Eiddo



Ynni Carbon
Isel



Innovation in High
Value Manufacturing



Agri-food and
Tourism



Digital
Connectivity



Land and
Property



Low Carbon
Energy

Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch

Bydd y rhaglen hon yn hyrwyddo arloesedd a masnacheiddio technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector yn ein rhanbarth.

Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Bydd y rhaglen yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.

Cysylltedd Ddigidol

Bydd y rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am gysylltedd ddigidol ac elwa o gysylltedd cyflym, o ansawdd uchel.

Tir ac Eiddo

Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, yn gwireddu cyfleoedd ac yn adeiladu ar ein cryfderau.

Ynni Carbon Isel

Bydd y rhaglen yma'n sicrhau y budd o ddatblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan gryfhau safle Gogledd Cymru fel lleoliad blaengar ar gyfer y sector ynni carbon isel.



Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Nod y rhaglen hon yw hyrwyddo a chefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd o'r radd flaenaf sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.



Hwb Economi Wledig Glynllifon

Hwb economi gwledig arbennig, o safon fyd-eang, sy'n cynnig cyfleusterau a gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth gradd bwyd i wella'r sector bwyd a diod.



Rhwydwaith Talent Twristiaeth

Darparu sgiliau twristiaeth a lletygarwch ar gyfer y dyfodol a chynyddu'r manteision masnachol o un o'r sectorau sydd wedi'i sefydlu orau ac sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth.



Anturiaethau Cyfrifol

Bydd y prosiect hwn yn hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan twristiaeth gynaliadwy flaenllaw. Nod y prosiect yw denu ymwelwyr ychwanegol mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac yn ystyriol i gymunedau lleol trwy wneud y mwyaf o'r buddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i'r rhanbarth.





Cysylltedd Digidol

Mynd i'r afael â heriau cysylltedd o fewn y rhanbarth, gam wella'r gallu i ddatblygu technolegau newydd ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gall busnesau a thrigolion elwa o gysylltedd cyflym, ansawdd uchel.



Canolfan Prosesu Signal Digidol

Ymchwil a datblygu technolegau newydd sy'n gwella sut mae data yn cael ei brosesu'n effeithlon ac yn ddibynadwy rhwng dyfeisiau a phobl.



Di-wifr Uwch

Bydd y prosiect Diwifr Uwch yn cefnogi sefydliadau yn y sector preifat a chyhoeddus i fabwysiadu'r technolegau diwifr diweddaraf i gefnogi gwell darpariaeth gwasanaeth, effeithlonrwydd busnes, arloesi a thwf, yn enwedig trwy ddefnyddio cymwysiadau 'y rhynggrwyd pethau'.



4G+

Bydd y prosiect hwn yn gwella cysylltedd symudol 4G mewn safleoedd economaidd allweddol yn y rhanbarth, gan dargedu llwybrau trafnidiaeth, hwbiau busnes a thwristiaeth wrth gefnogi defnydd pellach o rwydwaith 5G yn yr ardaloedd hyn.



LPWAN

Nod y prosiect hwn yw darparu rhwydwaith eang a hygyrch LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Ystod Hir) ledled y rhanbarth, gan ddarparu datrysiaid cost effeithiol i fusnesau a defnyddwyr y sector cyhoeddus ar gyfer mabwysiadu cymwysiadau 'y rhynggrwyd pethau' a chefnogi arloesedd.





Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uwch

Hyrwyddo arloesedd a masnacholi technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector o fewn ein rhanbarth.



Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

Archwilio'r defnydd o brosesau biolegol fel dewisiadau carbon isel yn lle cynhyrchion a phrosesau gweithgynhyrchu diwydiannol.



Canolfan Opteg a Pheirianeg Menter

Darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i archwilio opteg, ffotoneg a deunyddiau cyfansawdd fel dewis amgen o ddeunydd ysgafn, a fydd yn lleihau carbon o fewn y sector gweithgynhyrchu.

Prifysgol Wrexham
Wrexham University





Tir ac Eiddo

Mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, i ddatgloi cyfleoedd ac adeiladu ar ein cryfderau. Datblygu safleoedd i ddarparu eiddo preswyl a chyflogaeth. Bydd hefyd yn sicrhau'r capasiti mwyaf posibl mewn cysylltiadau trafnidiaeth allweddol.



Cyn Ysbyty Gogledd Cymru

Datblygu a glanhau'r safle fel ei fod yn addas ar gyfer datblygiadau preswyl ac eiddo cyflogaeth.



Warren Hall, Brychdyn

Darparu gwasanaethau hanfodol i'r safle er mwyn i fusnesau allu ail-leoli, ehangu neu i ddenu busnesau newydd.



Porth Caergybi

Gwella capasiti a chyfleusterau'r porthladd, creu angorfa i brosiectau ynni a chludo nwyddau cyffredinol.



Porth y Gorllewin, Wrecsam

Darparu gwasanaethau hanfodol i'r safle er mwyn i fusnesau allu ail-leoli, ehangu neu i ddenu busnesau newydd.



Parc Bryn Cegin

Datblygu tir ar gyfer adeiladau cyflogaeth newydd, addas ar gyfer cyfleoedd ail-leoli.



Porth Wrecsam

Yn rhan o uwchgynllun Porth Wrecsam, nod y prosiect hwn yw cyflwyno cynllun adfywio defnydd cymysg trawsnewidiol o'r ardal o amgylch Gorsaf Gyffredinol Wrecsam.





Ynni Carbon Isel

Datgloi buddion datblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan sefydlu Gogledd Cymru fel un o'r lleoliadau arweiniol ar gyfer y sector ynni carbon isel.



Cydnerth (Morlais)

Datblygu cysylltiadau grid ychwanegol ar gyfer cyflenwyr ynni llanw i ddefnyddio mwy o dyrbinau o fewn y parth.




Cronfa Ynni Glan

Helpu prosiectau i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol.




Egni

Datblygu Canolfan Ragoriaeth, gwella ymchwil, dylunio ac arloesedd mewn ynni carbon isel.



Hwb Hydrogen Caergybi

Bydd y prosiect hwn yn sefydlu cyfleuster cynhyrchu a dosbarthu hydrogen gwyrdd ym Mharc Cybi, Caergybi sydd o fewn ardal Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan gyflenwi cwsmeriaid trafnidiaeth ffyrdd, morwrol a rheilffyrdd ar draws Gogledd Cymru.






Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Llywodraethu Governance

Strwythur Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf

Growth Deal Project Delivery Structure





uchelgaigogledd.cymru
swyddi@uchelgaigogledd.cymru